

ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

Cynghorydd: Stephen William Churchman **Grŵp:** Democratiaidd Rhyddfrydol

Ward: Dolbenmaen

Bwriad yr adroddiad blynyddol:

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

Rol a chyfrifoldebau:

Rwy'n gwasanaethu fel aelod ar y fainc gefn yng Nghyngor Gwynedd ar y pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Pensiynau

Mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo a chyfarwyddo rheolaeth a buddsoddiad y Gronfa Pensiynau.

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Mae'r Pwyllgor Cymunedau yn ystyried ystod eang o faterion fel casgliadau sbwriel, cyfundrefnau cynnal a chadw priffyrdd a gweithrediad rheoliadau ac archwiliadau Diogelwch Bwyd.

Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion

Y flwyddyn ddiwethaf roedd y pwyllgor hwn yn gyfrifol am ddewis a phenodi Prif Weithredwr newydd y Cyngor, y Phrif Swyddog Addysg newydd, ynghyd â swyddogion eraill.

Pwyllgor Ardal

Mae materion y Pwyllgor Ardal yn cael eu hystyried yn fwy perthnasol i Ddwyfor, e.e. Cynllun Cyflogaeth Dwyfor.

Pwyllgor Cynllunio

Mae'r pwyllgor yn ystyried a phenderfynu Ceisiadau Cynllunio gan y cyhoedd am adeiladau newydd, estyniadau ar gartrefi, ceisiadau cynllunio manwerthu, ac ati. Rwy'n gwasanaethu fel eilydd o'r pwyllgor hwn, ac rwyf yn mynychu os nad yw cynghorydd penodol arall yn gallu mynychu.

Grŵp Busnes

Fel Arweinydd Grŵp y Blaid Democratiaid Rhyddfrydol ar Gyngor Gwynedd, rwy'n mynychu cyfarfodydd "Grŵp Busnes" gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol eraill, mae'r cyfarfodydd yn cael eu hwyluso gan swyddogion. Rôl y cyfarfodydd yw gweithredu fel cwndid dwyffordd i wybodaeth ac i gynorthwyo cynllunio at y cyfarfod cyngor llawn "nesaf".

Cyngor Llawn

Mae'r Cyngor Llawn yn cyfarfod trwy gydol y flwyddyn, ac rwyf o hyd yn cymryd rhan weithgar yn y trafodaethau a'r dadlau. Rwy'n rhoi fy marn er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud, neu er mwyn mynegi fy safbwynt pan rwyf yn meddwl bod rhywun yn anghywir.

Yn gryno, rôl cynghorydd yw gweithio fel aelod o dîm a sicrhau'r gorau i drigolion Gwynedd. Tu allan i faes y Cyngor, fy rôl yw bod ar gael i'r cyhoedd a chyflawni gwaith i'r ward ar ran fy etholwyr.

Gweithgareddau etholaethol:

Rwyf wedi cylchredeg nifer o gylchlythyrau am y Ward dan y teitl 'Ffocws', yn trafod y ward gyfan, gan sôn am rai o fy ngweithgareddau a gwaith achos. Rwy'n ysgrifennu, argraffu a dosbarthu rhain fy hun, (heblaw am lond llaw sy'n cael eu hanfon drwy'r Post Brenhinol). Mae pob cartref yn derbyn dau gopi yr un, un copi Saesneg ac un copi Cymraeg. Mae'r taflenni yma'n cael eu cyfieithu'n broffesiynol a dwi'n talu am y gost gyfan o fy mhoced fy hun felly nid yw'n gost i drigolion Gwynedd.

Er mwyn cynrychioli Dolbenmaen, rwy'n anelu at fod yn rhagweithiol a mynd ati i chwilio am waith achos i daclo. Wrth ddosbarthu cylchlythyrau rwy'n gwyllo am unrhyw broblemau wrth i mi fynd o gwmpas y ward, a byddaf yn gofyn am farn a phryderon trigolion. Byddaf yn adrodd am rai o'r problemau hyn yn fy ngylchlythyrau. Mae gwaith achos yn aml yn gofyn i mi ymweld â safleoedd gyda swyddogion y Cyngor er mwyn deall materion a thrafod datrysiadau.

Mae gweithgareddau ymgyrchu penodol wedi cynnwys goryrru yn Mhenmorfa, Pentrefelin a Bryncir, a chysylltu a Dŵr Cymru i leihau effaith eu gwaith adeiladu trwy Golan a Garndolbenmaen.

Nid wyf yn aelod o Gyngor Cymuned Dolbenmaen, ond rwy'n mynychu'r cyfarfodydd fel gŵr gwadd.

Mentrau a gweithgareddau eraill:

-

Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:

PWYLLGOR	PRESENNOL
Y Cyngor	5
Pwyllgor Craffu Cymunedau	4
Pwyllgor Cynllunio	1
Pwyllgor Pensiynau	3
Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion	4
Cyfarfod Paratoi i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau	3
Fforwm Ardal Dwyfor	2

Canran Presenoldeb: 73%

Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:

Rwy'n credu bod fy nghanran presenoldeb yn rhesymol. Rwyf wedi bod yn absennol o gyfarfodydd oherwydd amryw o resymau, gan gynnwys enghreifftiau ble roedd dau gyfarfod yn digwydd ar unwaith (CCG a'r Cyngor), ac am resymau personol yn cynnwys dau brofedigaeth a dau angladd teuluol.

Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:

Ymchwiliad Craffu – Trafnidiaeth Addysg ôl-16: 9 (un ymddiheuriad)
Ymchwiliad Craffu – Digartrefedd: 10 (Un ymddiheuriad)
Gweithdai Craffu i Aelodau – Toriadau Ariannol: Pedwar
Gweithdy Cynllun Strategol
Seminar Comisiwn Llywodraeth Leol (LGC) – Cardon Park, Sir Gaer
Cynhadledd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol (LGPC) - Bournemouth

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:

1. Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf. (CCG)
2. RNIB Cymru
3. Cymdeithas y Deillion Cymru
4. Ysgol Garndolbenmaen (Llywodraethwr)

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:

1. Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf. (Niferus)
2. Ysgol Garndolbenmaen
3. Seminar CLL
4. Cynhadledd Ymddiriedolwyr CPLL

Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:

Corfforaethol	Dyddiad
Gweithdai Diogelu Plant ac Oedolion Bregus	7/5/2014, 24/06/2014 a 4/07/2014
Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol	17/09/2014
Arwain yn Ddiogel	19/11/2014
Hyfforddiant i Aelodau ac Eilyddion y Pwyllgor Cynllunio	26/11/2014
Gwe-Ddarlledu	26/11/2014

Ychwanegol	Dyddiad
Hyfforddiant Cynllunio	21/05/2014
Gweithdy Rhagarweiniol Cyfryngau Cymdeithasol	8/07/2014
Cyflwyniadau Effeithiol	9 + 23/01/2015

Cyfanswm nifer o oriau: 22.5 awr